Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Hawliau anabledd yn y Deyrnas Unedig

Mecanwaith Annibynnol y DU

Cyflwyniad sydd wedi'i ddiweddaru i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Personau ag Anableddau cyn archwiliad cyhoeddus o weithrediad y DU o Gonfensiwn y CU ar Hawliau Personau ag Anableddau, Gorffennaf 2017

Equality and Human Rights Commission
Equality Commission FOR NORTHERN IRELAND
SHRC Scottish Human Rights Commission
NORTHERN IRELAND HUMAN RIGHTS COMMISSION

Rhagarweiniad

Cynhyrchwyd y cyflwyniad hwn gan Fecanwaith Annibynnol y Deyrnas Unedig (UKIM). Yn 2009, dynododd Llywodraeth y DU y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC), Comisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon (ECNI), Comisiwn Hawliau Dynol Gogledd Iwerddon (NIHRC) a Chomisiwn Hawliau Dynol yr Alban (SHRC) yn fecanwaith annibynnol i'r DU (UKIM) o dan Erthygl 33 y Confensiwn ar Hawliau Pobl ag Anableddau (CHPA). Eu tasg yw hyrwyddo, diogelu a monitro gweithredu'r CHPA yn y DU.

Mae'r cyflwyniad hwn yn darparu gwybodaeth ynghylch gweithredu'r CHPA yn y DU. Mae'n rhoi diweddariad ar gyflwyniadau cynharach UKIM i'r Pwyllgor CHPA ym mis Chwefror 2017, sydd i gyd ar gael ar wefan yr EHRC:

- UKIM (2017), 'Hawliau Anabledd yn y DU'
- EHRC (2017), 'Hawliau Anabledd yn Lloegr'
- EHRC (2017), 'Hawliau Anabledd yng Nghymru'
- EHRC ac SHRC (2017), 'Hawliau Anabledd yn yr Alban'
- NIHRC ac ECNI (2017), 'Hawliau Anabledd yng Ngogledd Iwerddon'

Mae'r cyflwyniad hefyd yn ymateb i Restr Materion y Pwyllgor CHPA ar gyfer y DU yng ngoleuni ymateb Llywodraeth y DU i'r Rhestr Materion. Mae'r cwestiwn/cwestiynau o fewn Erthyglau a Rhestr Materion CHPA y mae pob adran yn ymwneud â nhw wedi'u nodi yn y penawdau a'r is-benawdau.

Gan ddilyn yr un dull â chyflwyniadau cynharach UKIM, rydym wedi nodi problemau o dan 14 o feysydd thematig sydd yn ein barn ni yn arbennig o bwysig ar gyfer pobl anabl.

Mae UKIM wedi datblygu argymhellion, y bydd y Pwyllgor CHPA efallai yn dymuno eu hystyried wrth lunio ei Sylwadau Terfynol ar gyfer y DU a'r llywodraethau datganoledig. Mae rhai o'r argymhellion hyn wedi'u goleuo gan ein trafodaethau gyda phobl anabl a'u sefydliadau cynrychioliadol.

Trefniadau cyfansoddiadol y DU

Mae'r DU yn cynnwys pedair gwlad - Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Mae Senedd y DU wedi datganoli pwerau amrywiol i Senedd yr Alban, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chynulliad Gogledd Iwerddon, ac mae'n parhau yn gyfrifol am faterion sydd heb eu datganoli (‘materion a gedwir yn ôl') ac am Loegr. Mae'r cyfrifoldeb dros weithredu'r CHPA felly’n gorwedd gyda llywodraeth y DU a’r llywodraethau datganoledig.

Yn ogystal, mae tair system gyfreithiol ar wahân yn y DU – Cymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Y Goruchaf Lys yw llys barn uchaf y DU. Dyma'r llys apêl terfynol ar gyfer holl achosion sifil y DU. Mae hefyd yn penderfynu 'materion datganoli' ynghylch a yw'r awdurdodau datganoledig yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon wedi gweithredu neu'n bwriadu gweithredu o fewn eu pwerau.

Pwyntiau allweddol ac argymhellion

1. Gwella statws y CHPA mewn cyfraith a pholisi domestig (Erthyglau 3, 4) – Rhestr Materion, cwestiynau 1 a 27

1.1 Nid yw'r CHPA wedi'i ymgorffori'n uniongyrchol mewn cyfraith ddomestig. Nid yw UKIM yn ystyried bod y DU a'r llywodraethau datganoledig yn rhoi ystyriaeth briodol i CHPA yn gyson, ac nid oes unrhyw fecanweithiau domestig ar hyn o bryd i'w dal i gyfrif am fethu â gwneud hynny.

Argymhelliad: Dylai llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig ymgorffori'r CHPA mewn cyfraith ddomestig fel y gall unigolion herio'n effeithiol pan droseddir yn erbyn eu hawliau er mwyn sicrhau cydymffurfiad â dyletswyddau CHPA gan ddefnyddio'r system gyfreithiol ddomestig.

1.2 Mae'r cynnig i gyflwyno Deddf Hawliau i ddisodli Deddf Hawliau Dynol 1998 a newidiadau yn sgil bwriad y DU i ymadael â'r UE yn cyflwyno risgiau posibl o ran diogelu hawliau CHPA pobl anabl.

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth y DU, a'r llywodraethau datganoledig lle bo'n berthnasol, sicrhau nad yw unrhyw newidiadau'n arwain at lithro'n ôl o ran diogelu hawliau pobl anabl.

1.3 Er bod rhai strategaethau a chynlluniau gweithredu gan y llywodraeth ar gyfer pobl anabl ledled y DU, nid yw UKIM yn ymwybodol bod y DU na'r llywodraethau datganoledig wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i ble mae'r gyfraith, y polisi a'r arferion presennol yn methu â chydymffurfio â CHPA, a ble mae angen gwneud cynnydd.

Argymhelliad: Dylai llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig sicrhau bod eu cynlluniau neu strategaethau gweithredu ar gyfer anabledd yn nodi'n benodol ac yn mynd i'r afael â bylchau yn y broses o weithredu CHPA, ac yn cynnwys targedau a chanlyniadau clir.

2. Cydraddoldeb a pheidio â gwahaniaethu (Erthygl 5) – Rhestr Materion, cwestiwn 2

2.1 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 (EA 2010) yn darparu gwarchodaeth rhag gwahanol fathau o wahaniaethu ar sail anabledd mewn meysydd fel gwaith, darparu nwyddau a gwasanaethau, addysg a safleoedd. Nid yw EA 2010 yn berthnasol yng Ngogledd Iwerddon, lle mae deddfwriaeth gydraddoldeb anabledd yn darparu lefel is o warchodaeth ar gyfer hawliau anabledd ac mae angen ei diwygio.

Argymhelliad: Dylai Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon ddiwygio deddfwriaeth gydraddoldeb anabledd i drafod bylchau deddfwriaethol yn y warchodaeth sydd i'w chael.

Nid yw rhai o'r darpariaethau EA 2010 a fyddai'n cryfhau hawliau pobl anabl wedi'u cychwyn eto neu maent wedi'u diddymu, ac mae nifer o fylchau yn y warchodaeth y dylid mynd i'r afael â nhw er mwyn sicrhau cydymffurfiad â'rCHPA.

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth y DU, a Llywodraeth yr Alban lle bon berthnasol, adfer holl ddarpariaethau gwreiddiol EA 2010 a chychwyn unrhyw rai sy'n weddill, a chyflwyno mesurau newydd i fynd i'r afael â bylchau yn y warchodaeth.

3. Codi ymwybyddiaeth (Erthygl 8) – Rhestr Materion, cwestiwn 5

3.1 Er gwaethaf rhai ymrwymiadau a mesurau sydd yn eu lle, mae rhagfarn ac agweddau negyddol tuag at bobl anabl yn parhau, gan gynnwys agweddau negyddol tuag at bobl anabl sy'n hawlio budd-daliadau nawdd cymdeithasol.

Argymhelliad: Dylai llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig noddi ymgyrchoedd, hyfforddiant ac addysg hirdymor i godi ymwybyddiaeth er mwyn mynd i'r afael â rhagfarn ac agweddau negyddol tuag at bobl anabl.

4. Hygyrchedd (Erthyglau 9, 21, 30) – Rhestr Materion, cwestiynau 6, 17 a 25

4.1 Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gynllun(iau) hygyrchedd cynhwysfawr ledled y DU.

Argymhelliad: Dylai llywodraeth DU a'r llywodraethau datganoledig fabwysiadu cynlluniau gweithredu sy'n nodi rhwystrau i hygyrchedd; gosod

amserlenni â therfynau amser atebol penodol; a darparu adnoddau i weithredu'r cynlluniau hyn yn llawn.

4.2 Er gwaethaf rhai gwelliannau, mae pobl anabl yn parhau i wynebu anawsterau wrth gyrchu tai priodol, yr amgylchedd adeiledig a chludiant cyhoeddus gan gynnwys trenau, bysiau a thacsis.

Argymhelliad: Dylai llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig gymryd camau i:

- **Sicrhau bod mwy o dai hygyrch ac addasadwy ar gael, a sicrhau bod yr amgylchedd adeiledig yn hygyrch, gan adolygu a diwygio'r fframwaith cynllunio lle bo angen**
- **Sicrhau bod yr holl drafnidiaeth a seilwaith trafnidiaeth yn hygyrch i bobl anabl, a bod hygyrchedd yn rhan o brosesau cynllunio.**

4.3 Hefyd mae pobl anabl yn parhau i wynebu rhwystrau rhag cael mynediad at wybodaeth, ac mae pobl D / byddar a D / byddar a dall yn aml yn methu â chael mynediad at wasanaethau oherwydd prinder cyfieithwyr iaith arwyddion o ansawdd da. Hefyd mae diffyg yswiriant fforddiadwy ar gyfer pobl anabl.

Argymhelliad: Dylai llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig:

- **Sicrhau bod holl gyfathrebiadau awdurdodau cyhoeddus yn hygyrch i bobl anabl**
- **Cymryd camau i ddileu rhwystrau i gael mynediad i'r rhyngrwyd i bobl anabl**
- **Cymryd camau i ddileu rhwystrau i gyfathrebu rhwng pobl D / byddar a D / byddar a dall a'u teuluoedd, gofalwyr a darparwyr gwasanaethau. Gallai hyn gynnwys cymorth i ymgymryd â chyrsiau perthnasol.**
- **Sicrhau bod gan bobl anabl fynediad gwell i yswiriant fforddiadwy.**

5. Safon byw annibynnol a digonol a diogelwch cymdeithasol (Erthyglau 19, 20, 26, 28) – Rhestr Materion, cwestiynau 4, 14, 16, 22, 23 a 30

5.1 Mae pobl anabl yn fwy tebygol o fyw mewn tlodi ac amddifadedd sylweddol na phobl nad ydynt yn anabl, ac mae llawer o bobl anabl yn profi ansicrwydd bwyd.

Argymhelliad: Dylai llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig archwilio a datblygu strategaethau i fynd i'r afael â'r ffactorau y tu ôl i'r lefelau tlodi uwch ymhlith pobl anabl. Hefyd dylai Llywodraeth y DU archwilio cymorth a

digonolrwydd lwfansau budd-daliadau i bobl anabl yn sgil tystiolaeth o ansicrwydd bwyd.

5.2 Mae diwygiadau nawdd cymdeithasol wedi cael effaith arbennig o anghymesur a chronnus ar hawliau pobl anabl i fyw'n annibynnol ac i gael safon byw ddigonol. Mae UKIM yn dal i bryderu nad yw Llywodraeth y DU wedi ymateb yn ddigonol i argymhellion ymchwiliad y Pwyllgor CHPA. Rydym yn arbennig o bryderus bod polisïau newydd wedi'u cyflwyno ers i'r ymchwiliad ddod i ben, a allai gynyddu'r effaith negyddol ar bobl anabl.

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth y DU fonitro a chyhoeddi effaith diwygiadau nawdd cymdeithasol ar bobl anabl, gan gynnwys asesiad o effaith gronnus newidiadau treth a nawdd cymdeithasol a gostyngiadau mewn gwariant cyhoeddus.

5.3 Mae gan UKIM bryderon sylweddol ynghylch cau'r Gronfa Byw'n Annibynnol (ILF) ym mis Mehefin 2015, gan drosglwyddo cyfrifoldeb am gefnogi defnyddwyr y Gronfa i awdurdodau lleol yn Lloegr a'r gweinyddiaethau datganoledig ar ôl hynny. Mae pryderon ynghylch loteri cod post o gymorth o ardal i ardal yn Lloegr, ac ansicrwydd ynghylch trefniadau at y dyfodol yng Ngogledd Iwerddon.

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth y DU gymryd camau i sicrhau cydymffurfiaeth â'r CHPA lle mae wedi dirprwyo cyfrifoldeb am gyllid byw'n annibynnol i awdurdodau lleol yn Lloegr. Yn ogystal, dylai Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon ystyried ailagor y Gronfa Byw'n Annibynnol i ddefnyddwyr newydd.

5.4 Mae tystiolaeth yn dod i'r amlwg y gallai Grwpiau Comisiynu Clinigol ledled Lloegr orfodi cleifion sydd ag anghenion gofal parhaus i dderbyn lleoliadau gofal preswyl oherwydd cyfyngiadau ar gyllid Gofal Iechyd Parhaus y GIG.

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth y DU fonitro effaith polisïau Gofal Parhaus a ariennir gan y GIG a sicrhau nad oes unrhyw atchweliad ar hawliau pobl anabl i fyw'n annibynnol yn y gymuned.

5.5 Gall galw cynyddol ynghyd â llai o gyllid ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion ledled y DU arwain at atchweliad yn hawliau Erthygl 19 pobl anabl i fyw'n annibynnol yn y gymuned.

Argymhelliad: Dylai llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig fonitro effaith unrhyw ostyngiadau ar argaeledd gofal cymdeithasol oedolion ar hawliau pobl anabl, a chymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael ag unrhyw effeithiau anffafriol a nodwyd.

6. Cyflogaeth (Erthygl 27) – Rhestr Materion, cwestiynau 20 a 21

6.1 Mae pobl anabl yn parhau i fod yn llai tebygol o fod mewn cyflogaeth na phobl nad ydynt yn anabl, ac o brofi nifer o rwystrau i ddod o hyd i waith ac aros yn y gwaith. Er bod nod wedi'i osod i haneru'r bwlch cyflogaeth anabledd ledled y DU, mae pryderon y bydd mentrau'r llywodraeth yn methu â chyflawni newid cadarnhaol.

Argymhelliad: Dylai llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig werthuso pa mor dda y mae rhaglenni cymorth cyflogaeth yn helpu pobl anabl i ddod o hyd i waith ac aros ynddo, a chymryd camau i wella'u heffeithiolrwydd. Fel cam cyntaf, dylai Llywodraeth y DU gyhoeddi Strategaeth Cyflogaeth Anabledd. Hefyd dylai Llywodraeth y DU gyflwyno targedau interim a gofyniad adrodd statudol ar ei hymrwymiad i haneru'r bwlch cyflogaeth anabledd.

6.2 Mae pobl anabl yn y DU yn cael eu talu llai ar gyfartaledd na phobl nad ydynt yn anabl. Ledled y DU, nid oes unrhyw ofyniad ar gyflogwyr cyhoeddus na phreifat i gyhoeddi bylchau cyflog anabledd.

Argymhelliad: Dylai'r DU a, lle bo hynny'n berthnasol, llywodraethau datganoledig: fonitro effeithiolrwydd adrodd gorfodol ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau o ran cau bylchau cyflog; cyhoeddi gwybodaeth ystadegol ar y raddfa a'r tueddiadau mewn bylchau cyflog anabledd; ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol ar ymestyn y gofynion adrodd statudol i anabledd; a rhoi cynllun gweithredu ar waith i gau'r bwlch.

7. Mynediad at gyfiawnder (Erthyglau 13, 12) – Rhestr Materion, cwestiwn 8

7.1 Mae newidiadau i gymorth cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr wedi effeithio'n negyddol ar fynediad pobl anabl at gyfiawnder mewn achosion cyfraith teulu, tai, cyflogaeth, dyledion a budd-daliadau lles.

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth y DU: gynnal adolygiad llawn o effaith diwygiadau cymorth cyfreithiol ar fynediad at gyfiawnder ar gyfer pobl anabl yng Nghymru a Lloegr erbyn Mawrth 2018; a chymryd camau pendant i liniaru unrhyw effeithiau anffafriol a nodir.

7.2 Yn sgil cyflwyno ffioedd ar gyfer tribiwnlysoedd cyflogaeth ym Mhrydain Fawr, gwelwyd gostyngiad sylweddol yn nifer yr hawliadau ynghylch gwahaniaethu ar sail anabledd. Dyfarnodd y Goruchaf Lys ar 26 Gorffennaf 2017 fod y cynllun ffioedd

presennol yn anghyfreithlon oherwydd mai ei effaith yw atal mynediad at gyfiawnder, ac fe ddileodd y ddeddfwriaeth a gyflwynodd y ffioedd.

Fel rhan o'r broses o ddatganoli tribiwnlysoedd cyflogaeth, mae Llywodraeth yr Alban wedi datgan na fydd unrhyw ffioedd tribiwnlys. Fodd bynnag, mae ffioedd llys wedi cynyddu'n sylweddol, er bod pryderon yn cael eu codi ynghylch yr effaith y gallai hyn ei chael ar fynediad at gyfiawnder i lawer ac yn arbennig i bobl anabl.

Argymhelliad: Ni ddylai Llywodraeth y DU gyflwyno unrhyw rwystrau newydd i gael mynediad i dribiwnlysoedd cyflogaeth, a dylai ailddatgan ei hymrwymiad i sicrhau mynediad cyfartal at gyfiawnder i bawb. Dylai Llywodraeth yr Alban asesu effaith y cynnydd mewn ffioedd llys ar bobl anabl, gan gynnwys asesiad cyfoes o fynediad pobl anabl at gymorth cyfreithiol sifil, a chymryd camau lliniaru os canfyddir unrhyw effaith negyddol.

7.3 Nid yw'n ymddangos bod hyfforddiant gorfodol ar gyfer aelodau'r farnwriaeth ar y CHPA nac addasiadau rhesymol i sicrhau mynediad cyfartal at gyfiawnder.

Argymhelliad: Dylai llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig gymryd camau i ddatblygu rhaglenni i adeiladu gallu ar gyfer y farnwriaeth ar yr CHPA, ac ar addasiadau rhesymol i sicrhau mynediad at gyfiawnder i bobl anabl.

7.4 Nid yw tribiwnlysoedd addysg yn y DU yn gallu dyfarnu iawndal ariannol ar gyfer gwahaniaethu ar sail anabledd neu aflonyddu. Fodd bynnag, gall y llysoedd sifil ddyfarnu iawndal ariannol ar gyfer mathau eraill o wahaniaethu wrth ddarparu addysg ysgol.

Argymhelliad: Dylai'r DU ganiatáu i dribiwnlysoedd addysg ddyfarnu iawndal ariannol am wahaniaethu ar sail anabledd neu aflonyddu mewn ysgolion.

8. Addysg (Erthyglau 24, 7) – Rhestr Materion, cwestiwn 18

8.1 Mae'r DU wedi cadw datganiad dehongliadol a chymal cadw ar Erthygl 24 ar addysg gynhwysol, ac mae tystiolaeth yn awgrymu bod peth llithro'n ôl ar y mater hwn.

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth y DU, a llywodraethau datganoledig lle bo'n berthnasol, gael gwared ar y cymal cadw a'r datganiad dehongliadol ar Erthygl 24 a chymryd camau pendant i wireddu hawl plant anabl i gael addysg gynhwysol yn gynyddol.

8.2 Mae disgyblion anabl yn perfformio'n waeth na disgyblion nad ydynt yn anabl yn yr ysgol ac maent gryn lawer yn fwy tebygol o gael eu gwahardd.

Argymhelliad: Dylai llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig:

- **Barhau i fonitro cyfraddau cyrhaeddiad addysgol ar gyfer disgyblion anabl a chymryd camau i wella cyfraddau cyrhaeddiad**
- **Sicrhau bod strategaethau yn cael eu sefydlu a'u hyrwyddo ym mhob ardal er mwyn lleihau nifer y disgyblion anabl sy'n cael eu gwahardd**

8.3 Hefyd mae pobl ifanc anabl yn wynebu rhwystrau wrth drosglwyddo o'r ysgol i addysg bellach neu gyflogaeth, ac maent yn fwy tebygol o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Argymhelliad: Dylai llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig gymryd camau i wella'r broses o drosglwyddo ar gyfer plant a phobl ifanc anabl o'r ysgol i addysg bellach a chyflogaeth.

9. Iechyd a bywyd (Erthyglau 25, 10) – Rhestr Materion, cwestiynau 1(f) ac 19

9.1 Mae pobl anabl, yn arbennig y rhai hynny ag anableddau dysgu, yn fwy tebygol o brofi anghydraddoldebau iechyd a phroblemau iechyd mawr ac maent yn debygol o farw'n iau na phobl eraill.

Argymhelliad: Dylai llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig gymryd camau pendant i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a brofir gan bobl anabl. Dylid monitro a chyhoeddi cynnydd, a chymryd camau pellach lle nad yw'r cynnydd yn ddigonol.

9.2 Nid yw gwasanaethau iechyd meddwl yn cael eu hariannu'n ddigonol. Mae pobl sydd â chyflyrau iechyd meddwl yn aml yn gorfod aros yn hir i gael triniaeth; yn aml bydd ganddynt anghenion na chânt eu diwallu, neu bydd yn rhaid iddynt deithio'n bell iawn o'u cartref i gael triniaeth.

Argymhelliad: Dylai llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig sicrhau bod gwasanaethau iechyd meddwl priodol ar gael, sy'n cael eu cyllido'n ddigonol, sy'n briodol ac o safon uchel, er mwyn diwallu'r galw.

9.3 Mae menywod anabl yn profi rhwystrau i fwynhad cyfartal o'u hawliau atgenhedlu. Er enghraifft, dim ond ychydig o wasanaethau neu grwpiau cymorth sy'n cynnig gwybodaeth ynghylch rhyw a pherthnasau i bobl ag anabledd dysgu.

Argymhelliad: Dylai llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig gymryd camau i sicrhau bod menywod anabl yn gallu cael mynediad at wasanaethau prif ffrwd ar gyfer gofal iechyd rhywiol ac atgenhedlol a gwasanaethau mamolaeth yr un fath â phawb arall, a darganfod beth yw'r angen am wasanaethau arbenigol.

9.4 Mae llawer o bobl ag anableddau dysgu neu awtistiaeth yn cael eu rhoi mewn ysbytai seiciatrig yn amhriodol, neu'n debygol o aros yn yr ysbyty am fwy o amser na chleifion iechyd meddwl eraill.

Argymhelliad: Dylai llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig sicrhau bod pobl ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth:

- **Yn gallu cael gwasanaethau yn y gymuned er mwyn osgoi lleoliadau anwirfoddol**
- **Yn aros mewn gofal cleifion mewnol (at ddibenion asesu a thriniaeth) am yr amser byrraf posibl, ac nad ydynt yn aros mewn cyfleuster tymor byr yn yr hirdymor**
- **Yn cael gwasanaethau sy'n gweddu i'w hanghenion, ac nad ydynt yn cael eu rhoi mewn sefydliadauseiciatrig oni bai fod ganddynt angen iechyd meddwl**
- **Yn cael eu diogelu gan fesurau diogelu effeithiol.**

9.5 Mae tystiolaeth o orchmynion 'Peidiwch â Dadebru' yn cael eu cymhwyso'n amhriodol i bobl anabl gan weithwyr proffesiynol meddygol.

Argymhelliad: Dylai llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig fonitro'r defnydd o orchmynion 'Peidiwch â Dadebru' mewn cysylltiad â phobl anabl i sicrhau: bod cyfarwyddyd ar gael i gleifion ac / neu eu cynrychiolwyr; bod gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn ymgynghori â chleifion ac yn cofnodi rhesymau lle na chynhaliwyd ymgynghoriad; y cymerir camau ataliol ar unwaith lle mae tystiolaeth o ddefnydd amhriodol; a bod gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn ddigon medrus o ran deall anghenion cyfathrebu pobl anabl ag amrediad eang o namau.

9.6 Mae angen cymryd camau pellach i ddiogelu hawl pobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl neu anabledd dysgu i fyw, ac i fynd i'r afael â marwolaethau nad ydynt yn naturiol mewn carchardai, yn nalfa'r heddlu (ac ar ôl eu rhyddhau) ac mewn ysbytai seiciatrig.

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth y DU ddarparu diweddariad cynhwysfawr ar y camau a gymerwyd mewn ymateb i adroddiad ar y ffordd y mae

Ymddiriedolaethau GIG yn adolygu ac yn ymchwilio i farwolaethau cleifion yn Lloegr, a dylai Llywodraeth yr Alban sicrhau bod pob marwolaeth mewn lleoliadau iechyd meddwl yn cael ei ymchwilio a gweithredu ar argymhellion gan ymchwiliadau. At hynny, dylai Llywodraeth y DU weithredu'r holl argymhellion sy'n weddill o ymchwiliad yr EHRC i farwolaethau nad ydynt yn naturiol ymhlith pobl â chyflyrau iechyd meddwl sy'n cael eu cadw yng Nghymru a Lloegr, ac o'i adroddiad ar farwolaethau ar ôl eu rhyddhau o ddalfa'r heddlu.

10. Rhyddid rhag camfanteisio, trais a cham-drin (Erthyglau 16, 6) – Rhestr Materion, cwestiynau 3(b), 4(b) ac 11

10.1 Mae troseddau casineb ar sail anabledd yn parhau ledled y DU, ac mae lefelau uchel o ddiffygion ynghylch eu hadrodd, er bod rhai mentrau ar waith.

Argymhelliad: Dylai llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig:

- **Sicrhau bod yr heddlu ac asiantaethau statudol eraill yn gwerthuso eu prosesau adrodd a chofnodi, mewn ymgynghoriad â phobl anabl, a chymryd camau i'w symleiddio**
- **Defnyddio dulliau cyson ar gyfer casglu data ar draws gwledydd, y system gyfiawnder troseddol ac o fewn asiantaethau unigol er mwyn caniatáu dadansoddiad cymharol a chronolegol**

10.2 Mae plant a phobl ifanc anabl yn profi lefelau anghymesur o fwlio mewn ysgolion.

Argymhelliad: Dylai llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig sicrhau bod pob ysgol yn casglu data ansoddol a meintiol ar fwlio plant anabl mewn ysgolion, a defnyddio'r data i ddatblygu strategaethau i amddiffyn disgyblion anabl.

10.3 Mae menywod anabl yn profi lefelau anghymesur o bob math o drais a chamdriniaeth, ac yn wynebu rhwystrau i gyrchu cymorth priodol.

Argymhelliad: Dylai llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig gymryd yr holl gamau sydd eu hangen i sicrhau bod mentrau i fynd i'r afael â thrais domestig a rhywiol a phriodasau dan orfod yn cynorthwyo dioddefwyr anabl yn effeithiol, gan gynnwys gwasanaethau cymorth a ariennir yn ddigonol a digon o ddiogelwch cyfreithiol.

10.4 Mae tystiolaeth o gamdriniaeth ac esgeulustod mewn lleoliadau sefydliadol a gofal cartref, yn arbennig ymhlith pobl anabl hŷn a phobl ag anableddau dysgu. Yng Ngogledd Iwerddon, mae adolygiadau wedi amlygu'r angen am fwy o ymwybyddiaeth o'r cysylltiadau rhwng anabledd a cham-fanteisio'n rhywiol ar blant.

Argymhelliad: Dylai llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig gryfhau mesurau i atal camdriniaeth mewn lleoliadau sefydliadol a gofal cartref, gan gynnwys cam-drin pobl anabl yn rhywiol ac ariannol, yn arbennig plant anabl, pobl ag anableddau dysgu a phobl hŷn anabl.

11. Annibyniaeth ac uniondeb (Erthyglau 12, 14, 15, 17) – Rhestr Materion, cwestiynau 9 a 10

11.1 Mae pryderon ynghylch atal pobl anabl, yn gorfforol, mecanyddol a chemegol, pan fyddant wedi'u cadw gan y wladwriaeth ac mewn lleoliadau gofal iechyd, gan gynnwys y defnydd o wahanu hirdymor.

Argymhelliad: Dylai llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig sicrhau bod tystiolaeth ynghylch lefel y defnydd o ataliad corfforol, mecanyddol a chemegol, a gwahanu a gwahardd, yn cael ei chyhoeddi fel mater o drefn, a dylent gymryd camau tuag at ddileu'r defnydd o ataliad am resymau sy'n gysylltiedig ag anabledd ym mhob lleoliad.

11.2 Mae UKIM hefyd yn pryderu oherwydd arwyddion bod cyfleusterau i gadw mewnfudwyr wedi'u cyfarparu'n annigonol ar gyfer pobl a gedwir yno ac sy'n dioddef o gyflyrau iechyd meddwl difrifol, ac mae'n dal i bryderu ynghylch polisïau mewn cysylltiad â chadw mewnfudwyr anabl.

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth y DU:

- **Gadw mewnfudwyr yn y ddalfa fel dewis olaf yn unig, peidio â chadw pobl sy'n agored i niwed, a gosod terfyn amser o 28 diwrnod ar gyfer cadw mewnfudwyr yn y ddalfa**
- **Sicrhau, lle mae'n cadw pobl a allai fod angen cymorth i ymarfer eu galluedd cyfreithiol, y darperir cymorth annibynnol er mwyn caniatáu iddynt fynnu eu hawl gyfreithiol i herio eu cadw yn y ddalfa fel mewnfudwyr**

11.3 Mae deddfwriaeth ledled y DU yn parhau i ddarparu ar gyfer gwneud penderfyniadau dirprwyol, sy'n caniatáu i benderfyniadau gael eu gwneud ar ran rhywun.

Argymhelliad: Dylai llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig gymryd camau ar unwaith i gyflwyno a chryfhau darpariaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau a gefnogir, a sicrhau bod deddfwriaeth ynghylch galluedd / analluogrwydd meddyliol yn cydymffurfio â'r CHPA.

11.4 Mae diffyg mesurau diogelu effeithiol i atal pobl mewn ysbytai neu leoliadau gofal eraill rhag colli eu rhyddid, lle tybir na allant roi caniatâd ond lle bônt yn fodlon cael eu derbyn a/neu eu trin.

Argymhelliad: Dylai llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig ddarparu mesurau diogelu deddfwriaethol effeithiol rhag i bobl anabl golli eu rhyddida sicrhau bod y mesurau diogelu hyn yn seiliedig ar yr egwyddor o wneud penderfyniadau a gefnogir.

12. Cyfranogi mewn bywyd gwleidyddol a chyhoeddus (Erthygl 29) –Rhestr Materion, cwestiwn 24

12.1 Mae pobl anabl yn parhau i wynebu rhwystrau i ymarfer eu hawl i bleidleisio, gan gynnwys rhwystrau i ymuno â'r gofrestr etholiadol a chael gwybodaeth ynghylch etholiadau.

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth y DU gyhoeddi cynigion clir a chynhwysfawr sy'n nodi sut y trefnir y bydd cofrestru a phleidleisio'n gwbl hygyrch i bobl anabl.

12.2 Mae pobl anabl yn cael eu tangynrychioli mewn swyddi gwleidyddol. Rhwystr sylweddol sy'n atal pobl anabl rhag sefyll i'w hethol yw costau ychwanegol a all ddod i'w rhan yn gysylltiedig ag anabledd. Hefyd mae pobl anabl yn dal i gael eu tangynrychioli ar fyrddau cyhoeddus ledled y DU.

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth y DU ddarparu'r ateb mwyaf effeithiol i sicrhau bod gan bobl anabl bosibilrwydd cyfartal o ennill ac aros mewn swyddi etholedig; annog pleidiau gwleidyddol i gael gwared ar y rhwystrau sy'n golygu nad yw pobl anabl yn cael eu dewis yn ymgeiswyr; a chymryd camau i hyrwyddo cynrychiolaeth pobl anabl ar fyrddau cyrff cyhoeddus.

13. Ystadegau a chasglu data (Erthygl 31) – Rhestr Materion, cwestiwn 26

13.1 Mae bylchau sylweddol o ran casglu ystadegau ar gyfer anabledd ac nid oes llawer o ddata wedi'u dadgyfuno ar gael. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) wedi datgan na fydd yn cynnwys cwestiynau sy'n gofyn am ddata ar y math o nam yng Nghyfrifiad 2021.

Argymhelliad: Dylai llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig gasglu data yn gyson ym mhob cenedl i gwrdd â gofynion Erthygl 31, gan eu dadgyfuno yn ôl anabledd a phob grŵp nodwedd warchodedig arall a mathau o nam.

14. Gweithredu a monitro cenedlaethol (Erthygl 33) – Rhestr Materion, cwestiwn 29

14.1 Ers sefydlu Mecanwaith Annibynnol y DU (UKIM), ni ddyrannwyd unrhyw gyllid ychwanegol i alluogi UKIM i gyflawni ei gyfrifoldebau o dan y CHPA, a bu'nrhaid i'r EHRC, SHRC ac ECNI reoli gostyngiadau sylweddol yn eu cyllidebau.

Argymhelliad: Dylai llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig adolygu'r broses o ddyrannu adnoddau er mwyn sicrhau cyllid digonol i UKIM gyflawni ei swyddogaethau, gan gynnwys proses effeithiol o gynnwys pobl anabl.

Cysylltiadau

Mae'r cyhoeddiad hwn a'r adnoddau cydraddoldeb a hawliau dynol cysylltiedig ar gael o wefan y Comisiwn: www.equalityhumanrights.com.

I gael cyngor, gwybodaeth neu gyfarwyddyd am gydraddoldeb, gwahaniaethu neu faterion hawliau dynol, cysylltwch â'r Gwasanaeth Cynghori a Chefnogi Cydraddoldeb (Equality Advisory and Support Service), gwasanaeth annibynnol sy'n rhad ac am ddim.

Gwefan	www.equalityadvisoryservice.com
Ffôn	0808 800 0082
Ffôn testun	0808 800 0084
Oriau	09:00 hyd 19:00 (dydd Llun i ddydd Gwener)
	10:00 hyd 14:00 (dydd Sadwrn)
Post	FREEPOST Equality Advisory Support Service (Gwasanaeth Cynghori a Chefnogi Cydraddoldeb) FPN6521

Rhaid cyfeirio cwestiynau a sylwadau am y cyhoeddiad hwn at: correspondence@equalityhumanrights.com. Mae'r Comisiwn yn croesawu eich adborth.

Fformatau eraill

Mae'r adroddiad hwn ar gael hefyd fel ffeil Microsoft Word o www.equalityhumanrights.com. Am wybodaeth ar gael mynediad at gyhoeddiad y Comisiwn ar ffurf amgen, cysylltwch â: correspondence@equalityhumanrights.com.

© 2017 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Gorffennaf 2017

Gallwch lawrlwytho hwn o

www.equalityhumanrights.com

© 2017 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cyhoeddiad cyntaf: Gorffennaf 2017

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission